

Dechrau wrth fy nhraed

Cysylltuadau ysgolion gyda rhieni

Yn ystod fy amser yn fy ysgol pontio lle roeddwn yn arsylwi ac yn ymchwilio i ddarganfod gwybodaeth, darganfyddais bod y perthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un agos ac yn bwysig iawn i'r ysgol. Ar wefan fy ysgol pontio mae yna adran sydd a'r wybodaeth i gyd sydd angen ar y rhieni. Mae'r adran yma yn cynnwys gwybodaeth a rhoddi'r cyngor help llaw i rieni. Rhoddir cyngor ar gyfer helpu eich plentyn rheoli ei emosiynau yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd arferion a brecwast iachus.

Hefyd ar y wefan rhoddir help llaw ac awgrymiadau o sut i ddelio gyda bytwyr ffyslyd a phiclid ac ar gyfer amser gwely tawelach. Rhoddir fy ysgol pontio ar ei wefan gwybodaeth i rieni ar ymddygiad plant. Roedd Estyn wedi cydnabod bod gan yr ysgol berthynas gref â rhieni. (Estyn 2015). Mae'r rhieni yn helpu tuag at ddarparu llyfrau darllen yn ogystal ag adnoddau eraill. Yn ystod fy mhrofiad yn yr ysgol pontio gwelais fod plant yn cael mynd a llyfrau adre gyda nhw i ddarllen gyda'i rhieni i ymarfer ei sgiliau llythrennedd a chyfathrebu. Rhoddir hyn hefyd siawns i'r plant treulio amser gyda rhieni ac iddyn nhw wella. Hefyd bu yna lyfr sticeri a oedd yn mynd adref gwada'r plant yn ei ffeiliau. Roedd y llyfr sticeri yn llyfr a oedd y plant yn cael casglu ei sticeri a oedd yr athro dosbarth yn ei rhoi yn ei llyfr gyda sylw da a pam roedden nhw wedi cael y sticer honno. Mae'r llyfr yma yn mynd adref gyda'r plant bob wythnos ac fe roddir siawns i'r rhieni gweld ymddygiad a datblygiad da ei phlant yn y dosbarth a rhoddir siawns iddyn nhw hefyd ysgrifennu sylw yn y llyfr. Datblygir hyn berthynas agos gyda'r ysgol, dysgwyr a rhieni. Yn fy ysgol pontio, mae ganddynt gymdeithas rhieni ac athrawon. Bu'r ysgol a'r rhieni yn cydweithio i godi arian sydd yn cael eu buddsoddi yn addysg eu plant. Codwyd arian yma wrth i'r gymdeithas cynllunio a chynnal digwyddiadau er enghraifft ffair Nadolig, ffair haf a disgo Calan Gaeaf.

Ffydd

Yn fy ysgol pontio darganfyddais bod y mwyafrif o ddisgyblion yn grefyddol ac yn dilyn Cristnogaeth. Mae'r ysgol eu hun yn cynnal gwasanaethau Cristnogol ac yn dathlu dyddiau pwysig o fewn y grefydd megis Nadolig a Phasg. Mae yna ganran isel iawn o'r disgyblion yn dilyn crefydd arall neu ddim yn dilyn crefydd o gwbl. Mae'r gymuned yr ysgol leol yn un Gristnogol ac fe darganfyddais bod yr ysgol yn cydweithio gyda'r capel ac eglwys leol. Bu yna gyngherddau yn cael ei chynnal yn y capel neu eglwys gan yr ysgol. Rhoddir siawns i blant dysgu fwy am grefydd eu hun ond hefyd i ddod i adnabod eu cymuned leol ac i gymryd rhan mewn rhywbeth sydd ac ymwneud ar gymuned. Fe wnaeth fy ysgol pontio i greu côr ysgol a bu yn canu yn y capel lleol yn ystod amser Nadolig.

Ffigwr 3



Diwylliant

Mae gan ardal fy ysgol pontio diwylliant Cymreig cryf. Cyfanswm y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yw 1912 sef 39.9% o'r boblogaeth. [Source 2011 Census]. Yn fy nosbarth le fe es i i arsylwi ar ddiwrnod pontio fe wnes i ddarganfod bod 16 o blant yn y cyfnod sylfaen yn cael prydau ysgol am ddim. Dangosir hyn bod tlodi yn fater mân ond i helpu'r rhai sydd angen mae'r ysgol yn darparu set dillad ysgol ychwanegol.

Ffigwr 5



Iaith

Mae fy ysgol pontio i yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Er hyn nid oedd pob plentyn yn siarad Cymraeg, ac roedd un neu ddwy yn cael trafferth. Roedd fy nosbarth ysgol pontio i yn flwyddyn 1 a 2 cymysg. Roedd tua 3 plentyn yn cael hi'n anodd deall a siarad Cymraeg. Cred mae hyn o achos bod rhieni neu warchodwyr cartref yn Saesneg. Roedd gan nifer o blant oleuaf un rhiant neu warchodwr yn siarad Cymraeg yn gartref. Roedd tipyn o blant yn deall ac yn siarad Cymraeg yn dda iawn a gwelwyd bod y plant yma yn siarad Cymraeg adref.

Ffigwr 6



Cysylltiadau ysgolion gyda'r gymuned

Yn ystod fy amser yn fy ysgol pontio roedd yr ysgol gyfan wedi dod at ei gilydd i helpu rhoi tuag at y bwyd banc lleol. Roedd y plant i gyda wedi dod mewn a bwydydd sych a thuniau i roi tuag at yr elusen leol. Dangosir hyn bod yr ysgol yn cydweithio yn agos gydag elusennau lleol a'i fod nhw yn barod i helpu eu cymuned. Yn ysgol leol, trefnwyd diwrnod gwisg ffansi a oedd yn cyd-fynd gyda thema eu dosbarth. Roedd y digwyddiad yma wedi cael eu cynnal i godi arian tuag at eu canolfan cymunedol.

Mewn ysgol leol arall darganfyddais bod y plant yn mynd i ganu yn gartref lleol yr hen bobl pob blwyddyn. Mae hyn yn dod ar ysgol ar gymuned at ei gilydd. Rhoddir siawns i'r plant cymdeithasu gyda hen bobl ei ardal a chlywed am hanes ei ardal. I helpu'r gymuned mae gan fy ysgol pontio Cyngor Eco sydd yn helpu cadw ei ysgol a chymuned yn lan ac iachus. Y disgyblion sydd yn rhan o hyn ac yn dweud eu rhan ar sut gall yr ysgol a chymuned helpu gwella ei'n fyd. Trefnwyd diwrnod gan y cyngor eco i gasglu sbwriel sydd o fudd i'r gymuned. Mae hefyd gan yr ysgol Cyngor ysgol sef grŵp o ddisgyblion sydd wedi eu hethol gan gyd-ddisgyblion. Trwy'r cyngor ysgol mae'r disgyblion yn cael llais wrth iddynt allu cynnig syniadau, codi ymwybyddiaeth a thrafod materion gyda'r prifathro a'r llywodraethwyr. Mae'r cyngor ysgol hefyd yn cynnal prosiectau ar ran y disgyblion ac yn rhan bwysig o gynllunio datblygiad a dyfodol ei ysgol. Mae ysgol leol yn cydweithio gyda'i eglwys leol ac yn cynnal gwasanaethau lle bu'r plant yn canu ac yn cynnal sioeau bach i godi arian tuag at yr ysgol ar eglwys ei hun.

Wrth arsylwi yn ysgolion darganfyddais bod cydweithio gyda'r gymuned yn rhan bwysig o fod yn ysgol ac yn rhan o ddysgu i blant.

Ffigwr 4



Admission to School

Information for Parents

2019-2020

Cymorth Darllen

Ffigwr 2



Reading Support

Rhestr cyfeirnod

Ffigwr 1 <https://www.ysgolgyraegllangennech.cymru/>

Ffigwr 2 <https://www.ysgolgyraegllangennech.cymru/>

Ffigwr 3 <https://www.nps.k12.nj.us/head-start/ecs-west/1068-2/>

Ffigwr 4 https://www.rewards4schools.co.uk/r4s_badge_catalogue.pdf

Ffigwr 5 <https://www.kqed.org/mindshift/44628/how-to-develop-a-school-culture-that-helps- curb-bullying>

Ffigwr 6 <http://www.comisiynyddgyraeg.cymru/hybu/en/Pages/laith-Gwaith.aspx>

Estyn, Llywodraeth Cymru (2015) *Inspection report*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Llangennech%20Infants%20School%20eng.pdf> (Darllenwyd: Chwefror 1af)

Ffigwr 1

